**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Dan Labbad
Prif Weithredwr
Ystad y Goron

12 Awst 2024

Annwyl Dan

**Yr Economi Werdd**

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd wedi bod yn cynnal ymchwiliad i'r economi werdd. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn edrych ar sut y gall Llywodraeth Cymru wneud y mwyaf o'r cyfleoedd a gyflwynir gan yr economi werdd, unrhyw rwystrau y mae Cymru'n eu hwynebu ar hyn o bryd, a sut i sicrhau bod gennym y sgiliau yng Nghymru i gefnogi'r newid i economi werdd. Mae hyn yn cynnwys ystyried y modd y gall Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i wireddu potensial yr economi werdd, a pha gymorth y bydd ei angen ar weithwyr a chyflogwyr fel rhan o gyfnod o drawsnewid cyfiawn.

Fel rhan o hyn, mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed y diweddaraf am y cynnydd ynghylch rownd prydlesi 5 o ran ffermydd gwynt arnofiol ar y môr, a Chyflymydd y Gadwyn Gyflenwi. At hynny, byddai gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn deall pa drafodaethau y mae Ystâd y Goron wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r ymrwymiad i ddatgloi 12GW pellach o gapasiti gwynt arnofiol ar y môr, yn y Môr Celtaidd.  Byddem yn awyddus, hefyd, i glywed unrhyw ystyriaethau eraill yr ydych yn eu gwneud a allai gefnogi'r economi werdd yng Nghymru.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich barn ataf ar y mater hwn erbyn 11 Medi gan y bydd hyn yn rhoi amser inni ystyried eich ymateb, a'i ymgorffori yn yr adroddiad yr ydym yn gobeithio ei gyhoeddi yn yr hydref. Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Senedd Cymru
Welsh Parliament